# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost:** ***Cyngormawddwy@outlook.com***

1af Rhagfyr 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY** ***Nos Fercher y 10fed o Rhagfyr am 7.30pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.(nid oedd Neuadd Aberangell ar gael ar y noson)***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Hydref 2025 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.

**b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy** -derbyn y diweddaraf, ac e-bost David Flatley dyddiedig 23ain Tachwedd (wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr)

c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – derbyn y diweddaraf yn dilyn cyfarfod yn yr Hen fynwent gyda Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd ar y 10fed o Dachwedd, a'r e-bost ganddo dyddiedig 10fed Tachwedd (wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr)

d) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – derbyn y diweddaraf – a phenderfynnu ar y ffordd ymlaen efo hyn.

e) **Torri gwair mynwentydd** – **Llanymawddwy, Mallwyd a Dinas** - nodi gohebiaeth i law yn dilyn hysbyseb aeth i'r wasg ar gyfer y gwaith yma yn 2026.

f**) Safle y gofgolofn yn Minllyn.**

g) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyried y diweddaraf a'r gwaith sydd wedi ei gwbwlhau ac yn parhau ar y gweill.

h) Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell.

i)**Ffordd i Ty'n y Braich,** a cais i'r Cyngor Cymuned gywirio'r map sydd gan Gyngor Gwynedd.

j) **Gohebiaeth Swyddfa Bost**, Dinas Mawddwy

i) **Toiledau Dinas**

**5. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon banc – nodi balansau. Cadarnhau y gyllideb i wariant y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn 2026-27 ers y cyfarfod diwethaf, **a phenderfynnu ar y praesept ar gyfer 2026-27.**

b) Anfonebau i'w talu

- Cost torch Sul y Cofio
- Hysbyseb torri gwair yn Llygad y Dydd
- Cyfraniad Toiledau Cyhoeddus Dinas

c) Ceisiadau am arian.

- Apel Cronfa Cyfle i bawb Urdd Gobaith Cymru
- Eisteddfod yr Urdd Ynys Mon 2026

**7.Gohebiaeth**

**a)** Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru

**b)** Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus Dinas Mawddwy

**c)** Nodi hysbysiad i law gan Cyng Geraint Morgans am ei ddymuniad i sefyll i lawr o fod yn Gynghorydd Cymuned.

***d)*** Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda gyda Ysbyty Bronglais – nodi'r diweddaraf - *wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr*

8. **Unrhyw fater arall**